Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Cwestiynau

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

2. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

3. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

4. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

5. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

6. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Ymatebion

Enw Adam Jones

C1. Y rheswm dwi'n credu hyn yw achos Plant yw'r dyfodol! Hefyd os nag oes defnydd o'r Gymraeg ymysg y plant nid oes yna gobaith adfywio'r iaith felly, Cytunaf,

C2. Dwi'n 14 blwydd oed ac ar y foment dwi'n gorfod newid y sianel at sianel Saesneg achos mae rhai o'r rhaglenni sydd ar S4C ddim yn apelio ataf, Hefyd a fedrwch chi credu mewn y dyfodol bod plant a phobl Cymraeg mond yn gwylio sianeli Cymraeg! Bysau hynni'n arbennig!.

C3 Dim sylw

C4. Nid oes yna ddigon i ni fel siaradwyr Cymraeg! Mae angen mwy a wrth neud hynny cynyddu nifer yr oriau a darlledir yn y Gymraeg !

C5. Amrywiaeth o rhaglenni sydd yn apelio at bawb a nid jyst yr ifanc a'r babanod.

C6. Oes dwi'n gwybod eich bod chi wedi nodi ei fod ddim yn bosib ar hyn o bryd hagor gofod newydd ond dwi'n credu wrth greu ymgyrch mi fydd y Cymry yn ymateb i rhoi cefnogaeth, Mae angen tair sianel Un i'r babanod, Un i'r arddegau a pobl ifanc, Ac un i pobl cyffredinol fel hen a canol oed. Oni bai am hynny opsiwn 2

C7. Cam arbennig i dyfodol yr iaith ond mae angen gofod arall hefyd i pobl fel fi ! Achos beth ddigwyddith mi fydd y sianel newydd yma yn darlledu sianeli blentynnaidd i pobl fel mi felly na fydd newidiad wedyn! Hefyd enw i'r sianel newydd . Dyma fy awgrym i = SIAC = Sianel i arddegau'r Cymru

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Arianwen Mererid James

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 7-5 Byddai'n grêt cael digon o gymysgfa...toes dim hanner digon o raglenni plant addas yn y Gymraeg

C5 Ei fod ar gyfer pob oed yn ddeniadol ac yn llawn hwyl

C6 Dim sylw

C7 Bod posib 'pwyso'r botwm coch' a chael gema, newyddion a.y.b

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw James (Iago)

C1 Ydw. Yn yr oes ddigidol hon mae 'mond yn iawn fod plant sy'n siarad Cymraeg yn cael yr un dechnoleg wylio â phlant sy'n siarad Saesneg. Does dim digon ar gael ar hyn o bryd i unrhyw siaradwr Cymraeg. Maen cannoedd o sianeli Saesneg i ddewis rhyngddynt, ond dim ond dwy Gymraeg; a dyw un o'r rheiny ddim ar yr awyr bob dydd. Po fwyaf o sianeli sydd ar gael, y gorau.

C2 Ydw

C3 Na

C4 Rwy'n credu eich bod yn gywir am nawr. Pan fydd mwy o arian ar gael, gobeithio y cychwynnir mwy o sianeli. Mae gan blant ifainc Saesneg eu hiaith Cbeebies, a llwyth o sianeli cart□n ac mae gan yr arddegau Trouble. Am nawr, mae'r oriau yn berffaith; ond efallai y gellir darlledu rhaglenni i bobl 15-17 rhwng 20:00 a 22:00.

C5 Eu bod yn sicr yn Gymraeg, ond gan gofio beth mae plant sy'n siarad Cymraeg am ei weld a dylid ymlacio agwedd y rhaglenni fel bod plant wir yn gallu uniaethu gyda'r rhaglenni/ sianel. Angen cynnwys plant; ffonio mewn, e-bost, camerau gwe ayyb

C6 Yn bersonol, rwy'n credu y dylid sefydlu sianel hollol ar wahân i blant; gyda'r teitl 'Sianel Blant'; neu rywbeth tebyg; neu efallai rhywbeth y bydd y plant yn ystyried yn dda i'r sianel; cynnwys elfen o S4C fel mae Cbeebies gyda'r BBC. Rwy'n credu ei fod yn holl bwysig fod S4C, S4C2 a'r sianel blant yn aros ar wahân; gallai rhoi'r sianel ar s4C2 dynnu plant rhag gwylio.

C7 Pob lwc!

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Delyth James

C1 Ydw

C2 Ddim yn si□

C3 Na

C4 Dim sylw

C5 Dim hysbysebion - os gwelwch yn dda!

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Rhiannon Jennings

C1 Ydw

C2 Dim sylw

C3 Dim sylw

C4 Dim sylw

C5 Rhaglenni cyfoes, modern, fel sydd ar CBeebies. Rwy'n trio annog fy wyrion yn gyson i wylio S4C, gan eu bod yn hoff iawn o Sali Mali ayyb, ond mae'r gystadleuaeth gan Cbeebies yn rhy gryf. Mae cenedlaethau o blant yn cael eu colli i'r iaith. Bydden i'n hoffi petae nhw yn tyfu gyda'r iaith Gymraeg yn iaith naturiol iddyn nhw ymhob agwedd ar fywyd, nid fel iaith lafar yn unig. Cymraeg yw fy iaith gyntaf i, ond oherwydd system addysg y 50au mae'n anodd ifi sgrifennu Cymraeg. Mae popeth yr ydyn ni yn ei weld yn Gymraeg (hy rhaglenni teledu, arwyddion ac ati) yn help mawr i gryfhau'r iaith.

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Mrs.W.Jiggens

C1 Ydw. Dylai plant Cymru allu wylio sianel blant Gymraeg (fel mae plant Saesneg yn ei wneud yn Saesneg) ar unrhyw adeg o'r dydd, rhwng yr amseroedd 'watershed', nid dim ond am gyfnod byr ar amseroedd penodedig a all fod yn anghyfleus, yn dibynnu ar ffordd o fyw y teulu. Ar hyn o bryd, os yw plentyn yn methu gwylio planed plant bach dyw e/hi ddim yn gallu gweld unrhyw raglenni Cymraeg sy'n addas i'w oedran.

C2 Ydw

C3 Gallaf

C4 Rydw i'n credu fod hyn yn syniad da. Mae'n hwyr yn dod! Mae sianeli Saesneg dibendraw. Dylid hybu'r iaith Gymraeg mwy a dyma'r ffordd orau i wneud hynny gyda phlant sy'n byw yng Nghymru.

C5 Dylai rhaglenni i blant oed cyn ysgol ganolbwyntio ar ddysgu iddynt gyfrif, adnabod lliwiau, siapiau, geiriau ac ati, yn unol â'r canllawiau a osodir i ysgolion meithrin a chylchoedd chwarae. Mae plant yn dysgu yn gyflym yn yr oed hwn drwy chwarae a thrwy adloniant. Mae rhaglenni fel Dora the Explorer yn enghreifftiau o sut gellid gwneud hyn (mae'r rhan fwyaf o blant sy'n gwylio'r rhaglen honno yn gallu dweud geiriau ac ymadroddion Sbaeneg...pam ddim Cymraeg) Balamory - yr un syniad mewn pentref/ dref Gymreig ac ati. Dyw lleoli popeth mewn Ysgol feithrin ddim yn ddigon - mae'r ateb yn syml.

C6 Dim sylw

C7 Mae ANGEN sianel Gymraeg i blant arnom ar fyrder ar gyfer plant Cymraeg eu hiaith a theuluoedd Saesneg eu hiaith sy'n symud i Gymru, er mwyn cynnal ein hiaith. Eisoes dim ond ychydig gyfleoedd sydd i gael addysg feithrin a chyn-ysgol a dim ond ychydig o ysgolion cynradd Cymraeg/ dwyieithog ar gael. Mae popeth fel pe bae o blaid y Saesneg - rhywbeth y mae angen i'r Cynulliad fynd i'r afael ag e. Byddai sianel deledu Gymraeg i blant yn gychwyn a gobeithio y byddai'n annog mwy o deuluoedd i ddysgu a defnyddio iaith y wlad y maen nhw wedi dewis byw

ynddi.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Dewi Jones

C1 Ydw. Mae'n warth ein bod yn gwastraffu un o'r sianeli Cymraeg i ddarlledu rhaglenni *niche* sy'n bennaf yn Saesneg - hy darlledu o'r cynulliad.

Hoffwn weld y darllediadau yma yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan y cynulliad, a'u gneud unai ar sianel wahanol, neu dros y we. Byddwn yn falch iawn o gael rhaglen uchafbwyntiau'r cynulliad ar S4C1.

A dyna am wn i un o cryfderau cael S4C2 i rhaglenni plant. Mae gormod o crap ffermio a rhaglenni plant ar S4C ar hyn o bryd - ac er bo'r rhaglenni plant o safon uchel iawn nid ydynt o ddiddordeb i mi fel boi 31 oed. Byddai eu symud i S4C2 yn well i'r plant a gobeithio yn well i mi.

Wedyn dim ond y ffarmio a'r steddfod fydd yn *embarassing* a diflas ar S4C.

C2 Nac ydw

C3 Dim sylw

C4 Dim sylw

C5 ei bod yn cael lle ar y rhestr rhaglenni electroneg o dan "childrens programmes". Mae'n sicr o denu cynulleidfa well i rhaglenni plant S4C, achos fanna mae plant yn ffeindio'u rhaglenni bellach. Gall ddenu cynulleidfa ddi-Gymraeg i cartwns a ballu Cymraeg, a bydd yn rhoi kudos i'r Gymraeg ymysg ei siaradwyr ifanc. bydd yn dda iawn o rhan tyfu defnydd o'r Gymraeg yn y genhedlaeth nesaf.

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Ioan Jones

C1 Ydw. Mae'n anodd iawn i ni fel teulu dderbyn rhaglenni Cymraeg i'r plant oherwydd natur bylchog y darlledu, y ffaith na allwn dderbyn S4C digidol drwy ein bocs freeview a'r ffaith ein bod yn gorfod gweithio yn ystod y dydd. Rhaid felly troi at ddarpariaeth Saesneg a DVD. Rhaid yw sicrhau ymwybyddiaeth a mwynhad o raglenni Cymraeg o oed cynnar iawn - er mwyn helpu meithrin iaith yn anad dim arall.

C2 Ydw. Mae'n anodd siarad yn bersonol ar bwnc arbenigol, ond dwi'n si□ y byddai ymateb gwell gan bawb na sianel sy'n darlledu ein sêr (!!!!) gwleidyddol drwy'r dydd - er bwysiced addysg gwleidyddol.

C3 Na

C4 Cbeebies Cymraeg yw'r unig ateb i sicrhau cynulleidfa i S4C yn y dyfodol. Byddai sianel o'r fath yn help mawr i addysgu ein plant i fod yn Gymry go iawn.

C5 Dim sylw

C6 CBeeBies Cymraeg plîs! Oes unrhyw un gwylio'r Cynulliad??

C7 Dim sylw

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Denise Jones

C1 Ydw. Gyda phlentyn bach dan 5 oed, dydw i ddim yn teimlo fod tua 45 munud yn ddigon ar gyfer planed plant bach. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwylio teledu cyn gadael am yr ysgol. Pam nad oes rhaglenni Cymraeg ar yr amser hwnnw?

C2 Nac ydw

C3 Na

C4 Mae'r oriau darlledu a gynigir yn fwy realistig ar gyfer plant heddiw. Bydd eu dal nhw yn ifanc o fudd i S4C yn y dyfodol. Mae'n well gen i Opsiwn 2, er mwyn cael gwasanaeth di-dor. Yn bersonol does gen i ddim diddordeb mewn gwylio'r Cynulliad, ac mae'n si□ gen i na fydd gan blant ddiddordeb chwaith. Am wn i , mae'n fater o pa un geith y gynulleidfa fwyaf???

C5 Mae rhaglenni plant S4C yn wych. Parwch fel ydych chi, ond rhowch sianel benodol iddynt, gyda mwy o oriau darlledu. Ar hyn o bryd, mae'r amseroedd yn gyfyng ac anghyfleus weithiau. O ganlyniad mae fy mhlant yn gwylio sianeli eraill. Cadwch e'n syml fel eu bod yn gwybod fod sianel ar gael iddyn nhw yn unswydd drwy'r dydd, fel eu bod yn gwylio.

C6 Yn bersonol, dwi'n credu bod darlledu'r Cynulliad yn wastraff ar amser. Bydden i'n mynd am opsiwn 2 a rhoi gwasanaeth di-dor i'r plant. Fel dywedais eisoes, pa un sydd â'r gynulleidfa fwyaf? Dyw S4C2 byth 'mlaen yn ein t□ ni, ac nid bod yn anwybodus yr ydw i. Mae fy mhlant yn gwylio llawer mwy o deledu na fi yn ystod y dydd, felly y sianeli plant sy 'mlaen.

C7 Mae opsiwn 2 yn well opsiwn. Rwy'n cefnogi sianel benodol i blant, gan y byddai'n eu helpu nhw gyda'u Cymraeg, a'r rhieni sy'n dysgu hefyd!

·_·_·_·_·_·

Enw Menna Jones

C1 Ydw. Mae angen gwasanaeth yn debyg i CBBC a CBeebies ar blant Cymru. Fel mam newydd i ferch sydd nawr yn 10 mis oed, mae'r diffyg rhaglenni addas yn Gymraeg yn amlwg. Ar hyn o bryd dyw'r cynnig o rhaglenni Planed Plant Bach sydd ymlaen o rhyw 12.30-13.15 ddim yn ddigon nac ymlaen ar amser addas ychwaith - mae hwn yn torri ar draws amser cinio rhan fwyaf o blant a dwi'n si□ fod llawer o rhieni fel fi, ddim am i'w plant wylio teledu tra'n bwyta. Byddai'n well cael rhaglenni i'r rhai lleiaf o'n gynnar y bore tan tua amser dychwelyd o'r ysgol y plant hyn e.e. 15.30 a rhaglenni i'r rhai hyn a phlant yn eu harddegau o hynny ymlaen. Dwi'n anfodlon i'm merch wylio rhaglenni Cbeebies am fy mod iddi gael gweld rhaglenni Cymraeg - ond ar hyn o bryd nid yw hyn yn bosib ac mi fydd rhaid i mi brynu DVDs addas ar ei chyfer.

C2 Ydw. Byddai unrhyw un yn fodlon darparu gwasanaeth ar sail masnachol ond y cwestiwn yw, a fyddai'r hyn sy'n cael ei ddarlledu yn dioddef o rhan ansawdd/cynnwys a.y.y.b. oherwydd hynny?

C3 Na.

C4 Yn ddelfrydol: Rhaglenni Meithrin o tua 07.00 tan 15.30/16.00. Rhaglenni i'r rhai hyn o hynny ymlaen.

C5 Rhaid gwneud yn si□ fod cydbwysedd rhwng rhaglenni hwyl a rhaglenni addysgiadol ar gyfer plant Meithrin.

C6 Opsiwn 2 fyddai well gen i. A oes unrhyw ymchwilio wedi ei wneud i weld faint o bobl sy'n gwylio'r darllediadau o'r Cynulliad? Dwi'n si□ nad oes llawer ohonynt! A fyddai modd darlledu sain o'r Cynulliad yn unig fel BBC Parliament? Yn bersonol, ni fyddai colli darllediadau o'r Cynulliad yn cael unrhyw effaith arnaf. Plant yw ein dyfodol a dwi'n credu eu bod nhw'n

bwysicach. Mae'r darllediadau o'r Cynulliad yn rhywbeth gweddol newydd (dwi'n gwybod nad oedd Cynulliad gennym cynt!), ond mi lwyddom gwneud hebddo yn y gorffennol.

C7 Dim sylw

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Mrs Enid Jones

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Gareth Joy

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Rwy'n falch fod S4C yn awgrymu blociau amser penodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd targed yn y cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth newydd. Mae'n fy mhoeni ychydig, fodd bynnag, y gall y bydd ail-ddarllediadau cyson o fewn y blociau hyn - yn debyg i amserlenni sianeli CBBC a CITV, yn enwedig. Tra'n deall na all S4C greu deunydd dibendraw, 'ga i awgrymu y dylai S4C ail-ddarlledu yn llai cyson nag y mae gwasanaethau eraill. Byddai deunydd archif yn cryfhau'r gwasanaeth ac apêl y gwasanaeth. Mae amseroedd darlledu'r gwasanaeth newydd yn apelgar ac yn uchelgeisiol, os mentraf ddweud.

C5 O safbwynt diwyg ar yr awyr, dylai gwasanaeth yr arddegau fod yn wahanol iawn i wasanaeth plant oed cyn ysgol a phlant hyn. Er enghraifft, dylai'r cyflwyno rhwng rhaglenni gael eu hunaniaeth sicr ei hun, ac yn wahanol iawn i arddull gwasanaeth y plant hyn a gwasanaeth cyffredinol S4C. O ran rhaglenni, yn ogystal â rhaglenni newydd, dylid datblygu rhaglenni cyfredol fel "Uned 5". 'Ga i hefyd awgrymu creu cysylltiadau gyda strand "C2" BBC Radio Cymru.

C6 Gan gofio taw BBC Cymru sy'n cynhyrchu darllediadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar S4C2, 'ga i awgrymu y dylai'r Gorfforaeth greu gwasanaeth rhyngweithiol drwy'r 'botwm coch', gyda darllediadau byw o'r Senedd y gellir newid rhwng y Gymraeg a Saesneg. Gallai hyn fod ar gael ar S4C Digidol neu, os nad oes gan S4C ofod sbâr, ar BBC2W (sydd eisoes yn darlledu am.pm yn ystod yr wythnos). Fel arall, ga i hefyd awgrymu fod BBC Cymru yn cynhyrchu rhaglen wythnosol yn cynnwys darllediad byw o Gwestiynau'r Prif Weinidog (yn arddull darllediadau "The Daily Politics"/"am.pm"' o Gwestiynau Prif Weinidog Prydain ar foreau Mercher) o'r Senedd i'w darlledu ar S4C Digidol.

O ran darllediadau ychwanegol o ddigwyddiadau cenedlaethol yn yr haf, rwy'n credu y bydd yn rhaid cael hyd i ffordd i sicrhau y gall y gwasanaeth newydd ymdopi gyda'r darllediadau hyn.

C7 O ran cynyddu rhaglenni ffeithiol ga i awgrymu bwletinau newyddion ychwanegol gan “Ffeil” ar ddyddiau’r wythnos ac ehangu’r rhaglen nosweithiol am 4:50pm. Ga i hefyd awgrymu cyflwyno cyfres faterion cyfoes i’r arddegau, tebyg i “Hacio” (ITV Cymru). Dylai fod mwy o gynnyrch penodol Gymreig ar raglenni fel “Uned 5”.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Angela Killa

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Tomos Lewis

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Does dim digon ar benwythnosau i blant a phobl ifanc. Mae digon mewn Saesneg, ond mae angen rhywbeth arnom ar foreau Dydd Sadwrn.

C5 Nid dim ond cartwnau. Mae gormod o sioeon wedi'u animeiddio ar Blaned Plant. Pam nad oes mwy o bethau fel Mama Mia, Uned 5 neu Stamina ble mae cyflwynwyr yn cyfathrebu gyda phlant? Os oes cartwnau bob amser, dydw i ddim yn teimlo bod cymaint o ymdrech wedi cael ei wneud, tra bod rhaglenni fel y rhai a nodir yn ddoniol a'n fwy perthnasol i ni fel pobl ifanc.

C6 Dim sylw

C7 A oes mwy o bethau yn cynnwys gunge a slop yn gallu cael eu creu. Mae'n apelio at bobl o bob oedran am ei fod yn ddoniol! Er fy mod dros 12 rwy'n mwynhau gwylio Mama Mia a Crafwr oherwydd mae'r syniad o weld rhywun yn cael pethau wedi'u arllwys ar eu pennau yn apelio ataf. Ar y cyfan mae Planed Plant yn creu llawer mwy o'r rhaglenni yma na CBBC a CITV, er dyna'r prif rheswm dwi'n gwylio Planed Plant, er mwyn gweld pobl a phlant yn fodlon herio'u gilydd er serch y cywilydd posib o'r gunge! Credaf fod rhaglennu fel Waaaa!, Crafwr a Mama Mia yn wych, a byddaf yn dwli gweld mwy o'r math yma o rhaglenni.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Rhys Lloyd

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Ellen Looker

C1 Ydw. Credaf ei bod hi'n syniad gwych i gael sianel ar wahân i S4C ar gyfer plant a fydd yn darparu rhaglenni i blant (a phobl ifanc) drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen gwasanaeth o'r fath gan fod yna ddigon o ddewis i blant drwy gyfrwng y Saesneg ond yn y Gymraeg, ar hyn o bryd, rhaid gwylio ar adegau penodedig o'r dydd. Rwyf yn gwybod am sawl plentyn sydd wedi oedran meithrin, sydd yn gwylio prin dim byd o raglenni Cymraeg presennol ar S4C - mae angen darpariaeth ar gyfer yr oedran yma, plant 6 - 15, er mwyn eu denu yn ôl at y sianel. Ond mae angen darpariaeth hirach ar gyfer y plant meithrin hefyd.

C2 Ydw.

C3 Na

C4 Mi fyddaf yn fodlon gweld rhaglenni meithrin mewn lwp -rhaglenni a fydd yn cael eu hailadrodd o fewn amser penodedig - ee rhaglenni meithrin yn cael eu hailadrodd bob i 4 awr. Nid wyf yn credu y byddai hyn yn fuddiol i blant 6 mlwydd oed a hyn, gan y credaf na fyddant yn gwerthfawrogi ailddarllediadau o'r fath.

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 O'r hyn a welaf o fod ymysg plant fy ffrindiau, nid yw hi'n cwl i wylio rhaglenni Cymraeg. Felly mi fydd yn rhaid i S4C wneud yn siwr bod y sianel yn mynd i gynnig rhaglenni safonol o fudd i blant o'r cychwyn cyntaf. Nid yw plant o unrhyw oedran yn fodlon at ail gynnig.

Rwy'n hoffi'r syniad o gael 3 enw ar wahân i'r sianel - un i 0-5, un i 6-10 ac un i 10-15. Fel bod y 3 yn sefyll yn annibynnol bron i'w gilydd.

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Margaret Lowe

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Mae angen am fwy oriau darlledu dros y penwythnos

C5 Maent rhoi profiadau a medrusrwydd ychwanegol

C6 Efallai bydd gan opsiwn 2 y cyfleu i ddarparu mwy o wasanaeth sy'n addas i gynulleidfa ehangach

C7 Dim sylw

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Dafydd Meirion

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Heb os mae'n rhaid cynyddu'r nifer o oriau darlledu rhaglenni plant. Mae beth sydd ar gael ar hyn o bryd yn warthus o annigonol. Fel rhiant i blant ifanc mae'n amhosib gallu rheoli pryd 'di'r amser cyfleus i wylio teledu ac yn aml pan mae'r amser yma'n dod, does dim rhaglenni Cymraeg ar gael iddynt. Dwn i ddim faint o oriau o Nick Jnr a Cbeebies sydd wedi bod ymlaen yma oherwydd hyn.

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Emma Mills

C1 Ydw

C2 Ydw. Mae fy mhlant yn mynd i ysgol Gymraeg ac fe fyddai'n ffantastig petae nhw'n gallu dod adre o'r ysgol a gwylio rhywbeth fel cbbc yn Gymraeg a byddai'n eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg gartref.

C3 Dim sylw

C4 Pam na allwch chi ei gael drwy'r dydd fel cbbc ac ati fel bod plant o bob oed yn gallu cael y cyfle i wylio'r rhaglenni y maen nhw'n eu caru.

C5 mae fy mhlant yn 3 a 5

C6 Dim sylw

C7 Mae'n hen bryd i fod yn onest. Da iawn am ystyried cychwyn hyn. Da iawn chi x

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Andrew Misell

C1 Ydw

C2 Nac ydw

C3 Na

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Ffafriaf Opsiwn 2. Er y bydd rhai yn gweld eisiau darllediadau o'r Cynulliad, bydd uchafbwyntiau'r trafodaethau'n dal i gael eu darlledu ar raglenni newyddion, mae'n siwr, a chofnod ysgrifenedig o'r holl drafodaethau yn dal ar gael. Gan mai cyfyng yw'r gofod darlledu sydd ar gael, rhaid yw pennu blaenoriaethau, a chredaf fod ennyn diddordeb y genhedlaeth nesaf o blant Cymru mewn teledu Cymraeg yn bwysicach na darlledu holl drafodaethau'r

Cynulliad.

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Baudewijn Morgan

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Mentrau Iaith

C4 Yn cytuno efo'r cynigion

C5 Mae sianel i blant yn gallu creu hunaniaeth mwy positif ymhlith Cymry ifainc, a felly sicrhau dyfodol i'r iaith. Mae'n bwysig darparu ar gyfer plant hyn/oedolion ifainc i sicrhau fod y Gymraeg yn berthnasol i'w bywydau. Mae Rownd a Rownd, Bandit ac eraill yn ddechrau da.

Mae modd creu dealltwriaeth o gyd-destun Cymru yn y byd (a rhaglenni hynod o boblogaidd), drwy addasu rhaglenni o dramor ar gyfer Cymru - cartwnau o Siapan, cyfresi o Dde America, comedi o Wlad y Basg.

C6 Wrth reswm mae'n bwysig cyfathrebu beth sy'n digwydd yn y Bae ond mae cryfhau diwylliant Cymraeg ymhlith pobl ifanc yn bwysicach na darlledu'n fyw o'r Senedd.

C7 Mae'n bwysig fod y sianel ar gael yn Lloegr ac yng Nghymru. Ar arfordir y De (ac, mae'n debyg yn y Gogledd-ddwyrain), mae llawer o dai yn cael teledu digidol o Loegr, heb sianeli Cymreig. Mae hyn yn bwysicach os mai iaith y ty yw'r Saesneg, ond y plant yn siarad Cymraeg.

·_·_·_·_·_·

Enw Matthew Morris

C1 Ydw, oherwydd bydd rhieni a phlant gyda mwy o ddewisiadau o bryd i wylio rhaglenni. Dydw i ddim yn bwriadu cael teledu, ond os byddai yna sianel fel hwn, byddwn i'n ystyried prynu un er mwyn galluogi i fy mhlant (a fy ngwraig, sydd yn dysgu Cymraeg) wylio rhaglenni Cymraeg gyda'i gilydd.

C2 Nac ydw. Dim yn si□ . Mae llawer o brofiad gan S4C yn y maes teledu i blant.

C3 Na

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Nikki Morris

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Gallaf

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Rwy'n credu y dylech gael thai rhaglenni Cymraeg/ Saesneg fel Dora the Explorer & Diego. Mae fy mhlant (a fi) yn gwybod gymaint o Sbaeneg a Chymraeg diolch i'r rhaglen honno. Byddai'n ddefnyddiol i blant (& rhieni) er mwyn cael gwell crap ar yr iaith, yn enwedig os nad yw'r rhieni yn siarad Cymraeg a'r plant yn derbyn eu haddysg yng Nghymru. Dydw i ddim yn credu y byddai'n anodd addasu'r penodau Dora sydd eisoes yn cael eu dangos.

· _ · _ · _ · _ · _ ·